DAN DO MÔN

Cylchlythyr i fudiadau gwirfoddol Ynys Môn
Rhif Elusen 1088828 Rhif Cwmni 4197934 Rhifyn 88 Gorffennaf 2011

Cronfa Gymunedol MônMedrwn 2011 - 2012

Yn dilyn rownd gyntaf Cronfa Gymunedol Medrwn Môn 2011 - 2012 rydym yn y broses o hysbysu grwpiau os ydynt wedi bod yn llwyddiannus neu beidio.
Er hynny, mae ychydig o gyllid yn dal ar gael ar gyfer yr **ail rownd gyda dyddiad cau o 30 Medi 2011.**

Prif bwrpas fydd creu neu uwchraddio cyfleusterau cymunedol e.e. neuaddau pentref, canolfannau cymunedol ayb ar gael i'r gymuned gyfan, neu eu haddasu i sicrhau mynediad cyfartal ar gyfer pobl anabl fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.

Bydd hefyd yn annog gweithgareddau sy'n gwella'r amgylchedd naturiol i bobl leol e.e. alotments, gerddi cymunedol, gwelliannau amgylcheddol i leoliadau strategol mewn trefi a phentrefi ayb.

Caniateir ceisiadau hyd at £2000 i bob mudiad, un cais y flwyddyn.
Ffurflen gais a chanllawiau llawn ar gael gan Medrwn Môn ar 01248 724944.

Sioe Môn

Bydd gan Medrwn Môn babell yn Sioe Môn eto eleni.
Dewch draw i safle C78 i'n gweld.
Bydd y mudiadau canlynol yn rhannu'r babell gyda ni:
Digartref Ynys Môn; Fair Trade; Gofal a Thrwsio;
Gwirfoddolwyr Ifanc; Lein Amlwch;
Môn Gwynedd Victim Support; Samariaid.

Mae 1 lle ar gael pe bai'ch mudiad yn hoffi ymuno â ni.
Cysylltwch â ni ar 01248 724944.

Nid yw'n anorfod mai barn Medrwn Môn a fynegir yn y cyhoeddiad hwn. Cedwir yr hawl i olygu cyn cyhoeddi. Dyluniwyd a dosbarthwyd y cylchlythyr hwn gan Medrwn Môn.

NEWYDDION CYLLIDO

Sefydliad Elusennol Trusthouse

Mae sefydliad Elusennol Trusthouse yn gwobrwyo tua 300 o grantiau gwerth £2 filiwn pob blwyddyn. Mae eu rhaglen grantiau yn cefnogi prosiectau yn y DU sy'n cyfeirio materion mewn Cymunedau Gwledig a / neu Amddifadedd Trefol. O dan y ddau brif bennawd yma, maent â diddordeb mewn helpu prosiectau sefydledig yn gweithio yn y meysydd canlynol:

- Cefnogaeth Gymunedol
- Celfyddydau, Addysg a Threftadaeth
- Anabledd a Gofal Iechyd

Rhoddir grantiau gan Trusthouse i gostau rhedeg neu gostau cyfalaf unwaith ac am byth i elusennau a mudiadau ddim er elw yn unol â'u canllawiau a adolygir yn rheolaidd a phenderfynir arno gan yr Ymddiriedolwyr.

Materion Gwledig: maent yn derbyn ceisiadau gan fudiadau sy'n mynd i afael ar faterion mewn ardaloedd gwledig. 'Gwledig' yn y cyswllt yma yn golygu, dinasoedd, trefi, pentrefi, ag ardaloedd o lai na 10,000 o breswylwyr. Maent â diddordeb er enghraifft mewn prosiectau sy'n darparu trafnidiaeth i'r henoed, anabl neu dan anfantais, rhwydweithiau cyswllt i rai ifanc ac anableddau, prosiectau sy'n annog balchder cymunedol fel canolfannau cymunedol a neuaddau pentref, cynlluniau cyflogaeth yn arbennig felly rhai sy'n hyrwyddo crefftau traddodiadol lleol, prosiectau yn mynd i afael ar faterion fel camddefnydd alcohol / cyffuriau neu Ddigartrefedd.

Amddifadedd Trefol: maent yn derbyn ceisiadau gan elusennau lleol neu genedlaethol neu fudiadau ddim er elw sy'n gweithio efo preswylwyr ardaloedd trefol (hynny yw mwy na 10,000 o breswylwyr) sy'n cael eu dosbarthu ym Mynegrif Amddifadedd Lluosog diweddaraf y llywodraeth o fod yn yr 20% isaf. Mae'r Ymddiriedolaeth â diddordeb mewn er enghraifft, clybiau ieuenctid, cynlluniau hyfforddiant i helpu pobl allan o ddiweithdra, canolfannau galw mewn i'r digartref

Rhaid i ymgeiswyr ddangos yn glir yn eu cais sut mae eu prosiect yn cyfarfod un neu ddau o'r categorïau yma.

Trusthouse Charitable Foundation
65 Leadenhall Street, London EC3A 2AD
Ffon: 020 7264 4990. Am ganllawiau llawn a manylion ymgeisio ewch i'w gwefan: www.trusthousecharitablefoundation.org.uk

NEWYDDION CYLLIDO

Cash 4 Clubs

Mae Chwaraeon yn y gymuned i gyd yn ymwneud â phobl leol, cyfleusterau lleol, grwpiau lleol a mudiadau yn gweithio gyda'i gilydd i fwynhau chwaraeon. Mae Betfair a SportsAid yn cydnabod pwysigrwydd chwaraeon cymunedol, felly sefydlwyd Cash 4 Clubs i hwyluso codi arian i chwaraeon cymunedol drwy'r wlad. Maent yn cynnig y cyfle i ennill grantiau yn amrywio o £250 i £1,000 i bob clwb chwaraeon yn y DU

Anelir y cynllun syml yma i roi hep llaw i glybiau cymunedol a rhoi'r cyfle i godi arian maent angen ei fuddsoddi yn eu clwb. Gall clybiau ymgeisio am arian trwy lenwi'r ffurflen ar-lein unrhyw adeg ar: http://www.cash-4-clubs.com

Gall unrhyw glwb ymgeisio yn amodol ar fod yn gofrestredig efo'u Corff Llywodraethu neu awdurdod lleol. Gellir ymgeisio am rywbeth sy'n ychwanegu at gynaladwyedd ac effeithiolrwydd y clwb chwaraeon.
Dyfarnir grantiau yn chwarterol ar ôl i'w pwyllgor eu dewis.
Mae'r dyfarnwyr yma yn cynnwys cynrychiolwyr o Betfair, SportsAid ac aelodau annibynnol eraill.

Sefydliad Nationwide – Rhaglen Grantiau Bychan

Yn dilyn adolygu o raglen gyllido, cyhoeddodd Sefydliad Nationwide ei fod yn derbyn ceisiadau o dan ei Raglen Grantiau Bach
O dan y rhaglen, dyfarnir grantiau rhwng £500 a £5,000 i elusennau cofrestredig efo incwm blynyddol o lai na £750,000 ac sy'n cynnig cefnogaeth gysylltiol yn ymwneud â thai a / neu gyllid i:

- dioddefwyr trais yn y cartref
- pobl hŷn

Mae'r Rhaglen Grantiau Bach yn cefnogi prosiectau sy'n taclo gwaharddiad ariannol sy'n effeithio ar grwpiau dan anfantais sy'n ymwneud â materion tai a'r digartref ar draws y DU.

Gelir ymgeisio unrhyw amser.
Os tybiwch fod gwaith eich elusen yn unol â'r canllawiau edrychwch ar y canllawiau ariannol / canllawiau ar eu gwefan:
http://www.natiowidefoundation.org.uk/grants.asp
am wybodaeth fwy manwl am y gwaith a gefnogir fel arfer.

NEWYDDION

Cyhoeddodd Comisiwn Elusennau Casnewydd canllawiau perthnasol i grwpiau gwirfoddol / cymunedol ar Ddeall Dogfennau Llywodraethol.

Beth yw dogfen lywodraethol?

Pan fydd y Comisiwn Elusennau yn rhoi cyngor i ymddiriedolwyr, maent bron bob amser yn eu cyfeirio at ddogfen lywodraethol yr elusen yn gyntaf, oherwydd byddant yn cael hyd i'r ateb i'w cwestiwn yno yn aml iawn.

Pam mae dogfennau llywodraethol mor bwysig?

Mae'n amlwg o'r ymholiadau y mae'r Comisiwn Elusennau yn eu cael nad yw rhai ymddiriedolwyr erioed wedi gweld eu dogfen lywodraethol neu hyd yn oed yn gwybod ei bod yn bodoli. Fodd bynnag, yn union fel y gall darllen llawlyfr cyfarwyddiadau cyn i chi ddefnyddio teclyn osgoi problemau, gall ymgyfarwyddo â'ch dogfen lywodraethol sicrhau bod yr elusen yn gweithredu'n rhwydd ac yn atal pethau rhag mynd o chwith.

Beth yw'r mathau o ddogfennau llywodraethol?

Y tri math amrywiol o ddogfennau llywodraethol yw:

- Cyfansoddiadau - yn cael eu defnyddio ar gyfer sefydliadau aelodaeth anghorfforedig;
- Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu - i gwmnïau cyfyngedig drwy warant a chwmnïau sydd wedi cofrestru yn Nhŷ'r Cwmnïau; a Gweithredoedd Ymddiriedolaeth - i sefydliadau gweddol fach neu syml heb unrhyw aelodau.

Mae mathau eraill o ddogfennau yn cynnwys trawsgludiadau, ewyllysiau, Siarteri Brenhinol a chynlluniau'r Comisiwn Elusennau

Beth maen nhw'n ei gynnwys?

Mae dogfennau llywodraethol yn amrywio'n fawr, ond yn gyffredinol maen nhw'n cynnwys:

- enw'r elusen / amcanion neu ddibenion - pam sefydlwyd yr elusen;
- pwerau - sut y bydd yr elusen yn cyflawni ei hamcanion;
- ymddiriedolwyr - pwy yw'r ymddiriedolwyr a sut y cânt eu penodi;
- diwygiadau - sut y gall ymddiriedolwyr newid y ddogfen lywodraethol; a diddymu - sut i ddirwyn i ben a beth sy'n digwydd i unrhyw asedau sy'n weddill.

Gall cymalau eraill ddelio ag aelodaeth, cyfarfodydd a chyfrifon banc.

Mae'r Comisiwn Elusennau a chanllaw *CC21 - Dewis a Pharatoi Dogfen Lywodraethol* yn cynnwys rhagor o wybodaeth am ddogfennau llywodraethol a dolenni i'n dogfennau enghreifftiol.

All dogfennau llywodraethol gael eu newid?

Bydd rhaid i'r Comisiwn Elusennau gymeradwyo newidiadau o'r fath ond yn aml bydd pŵer gan yr ymddiriedolwyr i wneud y newidiadau eu hunain.

Mae'r Comisiwn Elusennau a chanllaw *CC36 - Newid Dogfen Lywodraethol eich Elusen* yn cynnwys rhagor o wybodaeth am wneud newidiadau.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Deborah Hawkins
Ffôn: 01633 225508 deborah.hawkins@charitycommission.gsi.gov.uk

NEWYDDION

Mae Croesffyrdd Gogledd Cymru wedi eu gwobrwyo â grant o £4,010.97 gan 'People's Postcode Lottery' i ariannu prosiect **'Gofalwyr yn mynd yn feiddgar'** gyda chefnogaeth Tunstall.

Bydd y prosiect yn cynorthwyo gofalwyr trwy:

- roi cyfle i ddysgu sut y medr technoleg gynorthwyol fod o fantais iddynt
- roi cyfle i brofi cyfarpar o'u dewis yn rhad ac am ddim heb ddim gorfodaeth
- gynnig tawelwch meddwl a mwy o ryddid

er enghraifft

- o bosib ni fydd angen atgoffa rhywun i gymryd meddyginiaeth gan fod larwm ar gael ar y blwch gweinyddu tabledi
- gall y gofalydd symud o gwmpas yn y tŷ, rhoi dillad allan neu weithio yn yr ardd gan wybod y bydd synhwyrydd y gadair freichiau yn eu rhybuddio pe bai eu partner neu gyfaill yn crwydro

Mae'r cyfarpar sydd ar gael yn cynnwys amrywiaeth o flychau tabledi (rhai gyda larwm),synhwyrydd cadair, gwely neu ddrws ynghyd a synhwyrydd syrthio. Mae'r cyfarpar yn ddiwifr ac yn hawdd i'w ddefnyddio. Daw y rhan fwyaf yn ddi-dâl ond bydd peth cyfarpar ar gael i'w arbrofi yn unig a hynny am ddim.

Mae Croesffyrdd yn gwahodd cyfeiriadau gan bartneriaid y trydydd sector a fedr adnabod gofalwyr allai elwa.
Am fwy o wybodaeth, ffoniwch y Brif Swyddfa ar 01492 516435.

Cyfraith Diogelwch Tân – gweithdai AM DDIM

Ydych chi'n gyfarwyddwr cwmni, ymddiriedolwr, aelod o bwyllgor neu reolwr?

Ydych chi'n deall eich rhwymedigaethau **cyfreithiol** o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005?

Os ydych chi'n gyfrifol am adeiladau, yn gyflogwr, elusen neu'n sefydliad gwirfoddol, mae'r ddeddfwriaeth yn gymwys a bydd angen i chi wneud asesiad risg diogelwch tân.

Dewch i **weithdy 2 awr AM DDIM** gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Maent yngofyn am **ddatganiadau o ddiddordeb** ar gyfer y seminarau i gychwyn, ac yna'n bwriadu eu cynnig mewn lleoliadau ar draws Gogledd Cymru yn ôl y gofyn.

Bydd te a coffi ar gael a bydd pob cynrychiolydd yn derbyn taflenni ar y gweithdy.

I archebu eich 'datganiad o ddiddordeb', cysylltwch gyda'r Adran Addysg i Fusnesau ar addysgifusnesau@gwastan-gogcymru.org.uk gan roi manylion o'r sefydliad a gynrychiolir a lleoliad dewisol y gweithdy.

NEWYDDION LLEOL

Apwyntiad Staff Newydd Medrwn Môn

Helo! Fy enw i yw Armon Williams ac rwyf newydd ddechrau fel **Swyddog Datblygu Cymunedau Mentrus** o fewn Medrwn Môn i weithio gyda a chefnogi cymunedau, grwpiau a'r sector gwirfoddol i ddod o hyd i ffynonellau incwm gwell, cynaliadwyedd a rhoi chefnogaeth i fentrau gymdeithasol.

Yr wyf yn wreiddiol o'r Bala, Gwynedd, ond rwyf wedi treulio llawer iawn o fy mywyd tu allan i Gymru. Wedi astudio yn y ddwy brifysgol yn Dundee, yr Alban, yn ystod y 1990au cyn gweithio i datblygu cymunedau yn y ddinas; wedyn yn gweithio am 6 mlynedd yn y maes diogelwch cymunedol yn Brighton & Hove cyn teithio De America am nifer o flynyddoedd ac yn gweithio i ddatblygu cymunedau yn La Paz, Bolifia.

Rwyf yn edrych ymlaen i weithio gyda chymunedau a grwpiau o'r sector gwirfoddol yn yr ardal ac i'w helpu i fod yn fwy cynaliadwy a llwyddiannus er mwyn parhau â'r gwaith ardderchog maent yn ei wneud i phobl Ynys Môn.

Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr

Cadeirydd newydd Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr yw:
Mr David Cooper. Cysylltwch drwy: Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr, Swyddfa Wrecsam, Cartrefle, Ffordd Cefn, WRECSAM. LL13 9NH

Is-gadeirydd newydd yw: Ms Hilary Scott. Cysylltwch drwy: Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr, Swyddfa Bangor, 11 Llys Castan, Parc Menai, BANGOR. LL57 4FH

Mae Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr yn cynnal cyfarfodydd yn gyhoeddus ac yn croesawu aelodau o'r cyhoedd i fod yn bresennol i wylio'r gweithgareddau. Gall aelodau o'r cyhoedd siarad mewn cyfarfodydd hefyd drwy drefniant a chytundeb y Cadeirydd.

Cynhelir y cyfarfodydd yng Nghanolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno LL31 9XX am 10.30am.

Dyddiadau:
Dydd Iau, 29 Medi 2011
Dydd Iau, 8 Rhagfyr 2011
Dydd Iau, 13 Chwefror 2012
Dydd Iau, 19 Ebrill 2012

Cysylltwch â Swyddfa Bangor ar 01248 679284 am raglen.

NEWYDDION

Eisteddfod Ddwyieithog Pobl Hŷn Môn (*dros 50 oed*)

Mynediad: £2.50
ARDDANGOSFA CELF a CHREFFT
1.00pm Dydd Iau 1 Medi 2011
Neuadd Goffa, Amlwch
CYSTADLAETHAU LLWYFAN
10.30am Dydd Sadwrn 1 Hydref 2011
Ysgol Gyfun Llangefni
Am fwy o fanylion cysylltwch â:
Helen Ellis 01407721947 neu 07702929562
E-bost: helen@acgm.co.uk www.angleseyagewell.co.uk

Age Cymru

Yn dilyn uniad rhwng Age Concern a Help the Aged ar lefel cenedlaethol, yr enw newydd fydd Age Cymru yng Nghymru ac Age UK yn Lloegr. Mae Age Concern yn sefyll am safonau ansawdd o'r lefel uchaf. O ganlyniad, yn fuan fe welwch y newid enw i Age Cymru Gwynedd a Môn, tra na fydd unhryw newid i'r gwasanaethau a ddarperir i'r safon uchaf.

Pontio'r Bylchau

Ym mis Mai 2011 lansiwyd dogfen Pontio'r Bylchau a ddatblygwyd gan Raglen Genedlaethol Gofal Iechyd GIG Parhaus mewn partneriaeth â WCVA. Mae'n arddangos amrywiaeth o wasanaethau a chynlluniau'r trydydd sector sy'n bodoli ar draws Cymru sy'n ategu a chefnogi gwasanaethau statudol i wneud y gorau o'r holl gyfleon tuag at fyw'n annibynnol. Y cyfeiriad allweddol yw i fudiadau'r trydydd sector sy'n cynnig gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, i gysylltu â'r ddogfen gweithredu perthnasol fel rhan o'i chynllunio a'i threfniadau. Dywedwyd bod y ddogfen at sylw Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol a' mudiadau trydydd sector ar draws Cymru, gyda'r nod i gael cysylltiadau cydweithio cryfach, er mwyn arbed danfon pobl i ysbytai ac i gynorthwyo gyda gofal throsglwyddo gohiriedig. Y negeseuon allweddol yw 'Cyd-ddylunio a Chyd-ddarparu Gwasanaeth ', 'Darpariaeth Is-adeiladedd y Trydydd Sector a Cyd-gynhyrchiad' a 'Gwneud Iddo Ddigwydd'; Galluogi Cyfraniad y Trydydd Sector gyfan ar draws Cymru i gynorthwyo GIG Bwrdd Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol.

Cysylltwch ag Ann ar: ann@medrwnmon.org neu ffoniwch 01248 724944.

NEWYDDION

Siarter ar gyfer Cryfhau'r Cysylltiadau Rhwng Staff Cyflogedig a Gwirfoddolwyr

Mae'r Siarter hon yn nodi'r egwyddorion allweddol ar gyfer trefnu gwaith gwirfoddol ac yn disgrifio'r seiliau ar gyfer sicrhau perthnasau ystyrlon rhwng staff cyflogedig a gwirfoddolwyr. Cafodd ei datblygu ar y cyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) a Chyngres Undebau Llafur Cymru (TUC Cymru).
Mae gwaith tâl yn unrhyw weithgaredd sy'n cael ei gyflawni ar gyfarwyddyd cyflogwr ac y telir arian yn gyfnewid amdano. Mae gwaith gwirfoddol yn cael ei wneud yn ddi-dâl, nid ar gyfer elw ariannol; y mae'n cynnwys ymrwymiad o ran amser ac egni er budd y gymdeithas.

Ein traddodiad gwirfoddol

Mae yna draddodiad cryf yng Nghymru o gyd-gefnogaeth a dwyochredd (reciprocity). Mae hyn wrth wraidd ein gwead cymdeithasol.
Amcangyfrifir bod rhyw 1.1miliwn o bobl yn gwirfoddoli gyda sefydliad bob blwyddyn, gan gyfrannu tua £1.6bn at economi Cymru (Adnodd Ystadegol WCVA 2010). Mae gwirfoddoli yn helpu i hybu cyfalaf cymdeithasol ac i ddatblygu cydlyniad cymunedol (community cohesion). Mae'n chwarae rhan hanfodol yn y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus allweddol. Trwy wirfoddoli, mae unigolion yn gallu 'rhoi rhywbeth yn ôl' i'r gymuned. Mae gwirfoddoli hefyd o fudd i'r gwirfoddolwr: mae'n helpu i gynnal iechyd a theimlad o hunan-les, yn gyfraniad at y frwydr yn erbyn unigrwydd ac arwahanrwydd a gall chwarae rhan bwysig yn natblygiad a thwf personol unigolion.
I rai, mae gwirfoddoli yn llwybr sy'n arwain at gyflogaeth.
Mae'r Siarter hon yn dangos gwerth a phwysigrwydd gweithgarwch gwirfoddol a gwirfoddolwyr i'r WCVA a TUC Cymru fel ei gilydd.
Mae'r ddau sefydliad wedi eu gwreiddio yn nhraddodiad gwirfoddol Cymru ac maent yn seiliedig ar werthoedd cyffredin. Mae'r mudiad undebau llafur ei hun yn seiliedig ar gysylltiad agos â gwirfoddolwyr.

Gweithio gyda'n gilydd

Mae WCVA a TUC Cymru yn cydnabod bod y berthynas rhwng staff cyflogedig a gwirfoddolwyr yn un o gytgord yn gyffredinol ac yn destun boddhad i'r ddau grŵp fel ei gilydd. Fe all gweithdrefnau clir, eglurder wrth ddisgrifio swyddogaethau priodol, cyd-ymddiriedaeth, parch a chefnogaeth ategu a hybu'r berthynas honno.
Mae'r Siarter hon yn nodi'r egwyddorion allweddol sy'n sail i berthnasau daionus yn y gweithle. Fe'i cynigir fel arweiniad i sefydliadau unigol wrth iddyn nhw ddatblygu polisïau a gweithdrefnau sy'n adlewyrchu anghenion ac Amgylchiadau lleol. Dylid ymwneud â'r broses hon, lle bynnag y bydd yn bosib, drwy sicrhau bod yna ymgynghori rhwng y rhai sy'n rheoli neu'n gofalu am wirfoddolwyr, ymddiriedolwyr/aelodau bwrdd rheoli a chynrychiolwyr undeb lleol. Bydd cefnogaeth gan staff o bob lefel yn y sefydliad yn helpu i sicrhau llwyddiant y rhaglen wirfoddol.
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Desg Gymorth WCVA ar 0800 2888 329.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

GWYBODAETH

BWRDD LLEOL DIOGELU PLANT GWYNEDD A MÔN

Hoffem eich hysbysu fod rhifyn cyntaf Newyddlen BLlDP Gwynedd a Môn nawr ar gael.

Dywedodd Iwan Trefor Jones (Cadeirydd) Cyfarwyddwr Corfforaethol –
Cyngor Gwynedd (uchod) “Efallai mai un o’r heriau mwyaf sy’n wynebu asiantaethau wrth ddiogelu plant yw’r angen i ddarparu amgylchedd gwaith sy’n cefnogi ymarferwyr i weithredu barn broffesiynol wybodus, rhoi help effeithiol a chadw ffocws clir ar fuddiannau gorau’r plentyn. Mae’n annhebygol iawn y bydd unrhyw atebion hawdd - yn enwedig ar amser o gyfyngiadau ariannol! Yn ei hanfod, fodd bynnag, mae’r BLlDP yn cydnabod mai dim ond drwy weithlu sgil, profiadol, sy’n derbyn cefnogaeth, y gall gyflawni ei nodau ac amcanion. Un cam tuag at hyn yw darparu diweddariadau/gwybodaeth leol ddefnyddiol sydd wedi eu targedu at y rhai sy’n gweithio’n agos gyda phlant a phobl ifanc sydd angen eu diogelu. Oddi mewn i’r cyddestun hyn y cyhoeddir y Newyddlen gyntaf hon. Gobeithiaf y byddwch yn ei chael yn ddefnyddiol.”
Os oes unrhyw sylwadau/syniadau ar gyfer cynnwys/erthyglau yn y Newyddlen yn y dyfodol, cysylltwch â Rheolwr Busnes BLlDP elfynjones2@gwynedd.gov.uk Ffôn:01286 679926.

Cadwyn Môn

Mae Age Concern Gwynedd a Môn yn falch dros ben fod y bartneriaeth gyda Cynnal Gofalwyr, Cyngor Sir Ynys Môn a’r WRVS wedi llwyddo i sicrhau grant o £608.884 gan y Gronfa Loteri Fawr ar gyfer cynllun cyfeillio yma ar Ynys Môn. Bydd cynllun ‘Cadwyn Môn’ yn pontio rhwng pobl hŷn, gweithgareddau cymunedol a holl ganolfannau a chlybiau pobl hŷn ar draws yr Ynys. Byddwn yn recriwtio staff a gwirfoddolwyr unwaith byddwn wedi derbyn yr arian, gobeithio erbyn mis Tachwedd. Nod Heneiddio’n Dda ers y cychwyn yw galluogi pobl hŷn i fyw bywyd llawn, mae’r cynllun cyfeillio newydd yn ddilyniant naturiol fydd yn sicrhau fod pawb yn gallu manteisio ar yr holl gyfleoedd sydd ar gael yn ein cymunedau lleol ar Ynys Môn.

Os oes gan unrhyw un ohonoch ddiddordeb, mewn derbyn neu gynnig y gwasanaeth cysylltwch â Helen Ellis ar 01407 721947.

GWYBODAETH

MEDRWN MÔN / MENTER IAITH

Cymraeg: Help!

- Hoffech chi wybod mwy am y Gymraeg!
- Eisiau awgrymiadau hawdd ar sut i ddefnyddio'r Gymraeg a dwyieithrwydd!
- Deall pwysigrwydd cael defnyddio eich dewis iaith yn y gymuned / gwaith / neu ysgol!

Sut y bydd o lês i chi wrth chwilio am swydd neu efo gwirfoddoli!
Yna dewch i'r sesiwn Ymwybyddiaeth iaith yn:

Oriel Môn Llangefni, Dydd Mercher 21 Medi 2011- 2.00pm
lluniaeth ysgafn am 3.00pm
Ymddiriedolwyr / Gwirfoddolwyr

Oriel Môn Llangefni Nos Fercher 28ain Medi 2011 am 6.30pm
Lluniaeth ysgafn am 7.30pm
Pobl Ifanc

Os â diddordeb cysylltwch â:
Helen Thomas yn Menter Môn 01248 725733
helen@mentermon.com
Derlwyn Hughes / Bethan Jukes yn Medrwn Môn 01248 724944
bethan@medrwnmon.org erbyn ***12fed Medi 2011.***

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

menter iaith môn

BWRDD YR IAITH GYMRAEG · WELSH LANGUAGE BOARD

Er Cof am Kath Dowgun, Llaneilian

Gyda thristwch nodwn farwolaeth Mrs Kath Dowgun o Llaneilian, un o sylfaenwyr Crossroads a bu'n ymddiriedolwr gwerthfawr o Medrwn Môn am nifer o flynyddoedd. Fel ymddiriedolwyr a staff Medrwn Môn, rydym yn cydymdeimlo â'i theulu a'i ffrindiau ar yr achlysur trist yma.

EIN CYFEIRIAD YW:
Uned 5c, Parc Diwydiannol Bryn Cefni
LLANGEFNI
Ynys Môn LL77 7XA
Ffôn: 01248 724944
Ffacs: 01248 750149
E-bost: post@medrwnmon.org
Safle We: www.medrwnmon.org